



Gwers 8

Joseff



Cyfres Stori Duw

Genesis 42:1–25 – 50:15–21 • • • • • • • •

Nod:

Trwy fywyd Joseff, cawn ddysgu sut mae Duw yn gweithio ym mhob math o sefyllfaoedd, er nad ydym yn sylweddoli hynny weithiau nes bod yr amser wedi mynd heibio.

Esbonio'r cefndir:

Wrth daro i mewn ac allan o'r Beibl fel hyn, weithiau mae angen rhoi'r hanes yn ei gyd-destun. Efallai y bydd y bobl ifanc yn gyfarwydd â hanes Joseff, ond os na, neu os oes angen eu hatgoffa'n sydyn, gallwch rannu'r canlynol.

Rydym yn ymuno â hanes Joseff ar ôl iddo gael bywyd anodd iawn. Roedd ei frodyr yn genfigennus iawn ohono, yn gymaint felly nes iddynt ei werthu'n gaethwas. Ar ôl ychydig o amser, cyrhaeddodd Joseff yr Aifft lle bu'n gweithio yn nhŷ dyn cyfoethog a phwysig iawn o'r enw Potiffar. Disgynnodd gwraig Potiffar mewn cariad ag ef, a chan nad oedd Joseff yn fodlon twyllo ei feistr Potiffar drwy fynd i'r gwely gyda hi, fe gyhuddodd hi Joseff o ddweud celwydd. Cymerodd Potiffar air ei wraig yn erbyn un Joseff a'i anfon i garchar. Yno y bu Joseff nes i Pharo (brenin y wlad) glywed ei fod yn gallu darllen breuddwydion. Roedd Joseff wedi creu gymaint o argraff arno yn dehongli breuddwydion yn gywir fel y bu i Pharo ei ryddhau o'r carchar a'i wneud yr ail berson mwyaf pwerus yn y wlad!

Erbyn hyn mae newyn wedi dod ar yr holl ardal ac mae pawb, ar wahân i bobl yr Aifft,

yn llwgu ac mewn angen mawr am fwyd.

Darlleniad:

Genesis 42:1–25 – 50:15–21. Rhannwch y darlenniad rhwng y grŵp. Os oes rhai yn nerfus neu'n anfodlon darllen yn gyhoeddus, gadewch iddynt ddilyn yn eu Beiblau wrth i'r gweddill ddarllen.

Gweithgaredd 1:

Gofynnwch i'r bobl ifanc i orffen diwedd y brawddegau hyn gyda'r opsiynau sy'n cael eu rhestru. Dylid eu torri allan ar ddarnau o bapur er mwyn iddynt ddyfalu fel tîm/parau ar ffurf pos.

- Bu brodyr Joseff yn genfigennus iawn ohono
- Cyhuddodd gwraig Potiffar Joseff o ddweud celwydd
- Gollyngodd Pharo Joseff o'r carchar
- Daeth Joseff yn bwysig iawn yn yr Aifft
- Yn ystod y newyn daeth brodyr Joseff ato
- Bu Joseff yn raslon iawn at ei frodyr
- Roedd Potiffar yn ddyn cyfoethog iawn
- Roedd Joseff yn gallu darllen breuddwydion

Dau beth y dylai'r bobl ifanc eu cofio: mae Duw gyda ni ac mae gan Dduw gynlluniau da ar gyfer Ei bobl.

Gofynnwch i'r bobl ifanc sut, yn eu tyb hwy, yr oedd Joseff yn gallu bod mor neis gyda'i frodyr a maddau iddynt? (mae'r ateb yn Gen. 50:20) Roedd Joseff yn rhoi ei ffydd yn Nuw ac yn ymddiried fod Duw yn gofalu amdano drwy'r amser, yn yr amseroedd drwg yn ogystal â'r rhai da.

Roedd gan Dduw gynllun ar gyfer Joseff a'i deulu ac roedd Duw yn trefnu pethau i wireddu Ei gynllun. Mae hyn yn wir am Gristnogion heddiw; mae gan Dduw gynllun ar gyfer pob un o'i bobl. Yr hyn sy'n anodd i ni ei dderbyn yw nad yw cynllun Duw ar ein cyfer yn golygu ein bod yn osgoi problemau bywyd.

Cofiwch "D,D,D" - trwy brofiadau bywyd:

- byddwn yn DYSGU am Dduw, amdanom ein hunain ac am bobl eraill
- byddwn yn DATBLYGU i fod yn fwy tebyg i Iesu
- bydd ein perthynas gyda Duw yn cael ei DYFNHAU.

Cymerwch amser i esbonio ystyr pob gair a'i gymhwyso i fywydau'r bobl ifanc.

Adnod i'w dysgu:

"Yr oeddech chwi yn bwriadu drwg yn f'erbyn; ond trodd Duw'r bwriad yn ddaioni" Genesis

50:20. Beth am osod gwaith cartref a rhoi her i'r bobl ifanc i ddysgu'r adnod erbyn y tro nesaf. Gellir cynnig gwobr fechan i'r rhai llwyddiannus.

Oes oes amser:

Rhannwch y grŵp yn barau a gofyn iddynt actio hanes Joseff yn cyfarfod ag un o'i frodyr. Gofynnwch i'r un sy'n actio Joseff ymddwyn mewn gwahanol ffyrdd: 1. Yn llawen gan ei fod yn cael dial. 2. Yn ofnus rhag i'r brawd ei frifo eto. 3. Yn gas ofnadwy. 4. Ac yn olaf, i actio fel yr hanes heddiw a maddau iddo. Gellir rhoi un nodwedd i bob pâr neu ofyn i'r parau wneud pob nodwedd. Efallai y gallwch ychwanegu rhai eraill.

Amser Addoli:

Defnyddiwch y llythyren 'DD' i arwain eich gweddïau. Gweddïwch am barodrwydd i DDYSGU, am nerth yr Ysbryd Glân i DDATBLYGU yn debycach i Iesu yn ystod yr wythnos sydd i ddod ac am y gallu i weld a chredu fod popeth sy'n digwydd inni yn medru dod â ni yn nes at DDUW a DYFNHAU ein perthynas ag Ef. Anogwch y bobl ifanc i weddio am rywbeth sydd wedi eu taro yn ystod y wers heddiw neu rywbeth i ddiolch amdano.